# Canllawiau Statudol: Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol – Ymchwiliadau Caffael

## Pwrpas ymchwiliadau caffael o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

1. Bwriad ymchwiliadau caffael o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("Deddf PGChC") yw cefnogi Awdurdodau Contractio perthnasol i gydymffurfio â'r Ddeddf. Gall yr ymchwiliadau hyn, drwy ddarparu argymhellion, adroddiadau a chanllawiau, helpu i sicrhau bod manteision arfaethedig y ddeddfwriaeth yn cael eu gwireddu.

2. Gall ymchwiliadau hefyd gynorthwyo Gweinidogion Cymru i nodi pan fo angen canllawiau neu hyfforddiant pellach i gefnogi Awdurdodau Contractio wrth iddynt weithredu'r Ddeddf PGChC.

## Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymchwiliadau caffael

3. Mae adran 41 o Ddeddf PGChC yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ymchwilio i sut mae Awdurdod Contractio a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cyflawni ei gaffael cyhoeddus. Efallai y bydd yn ofynnol i Awdurdod Contractio, yn dilyn hysbysiad, ddarparu dogfennau a gwybodaeth arall er mwyn i Weinidogion Cymru gynnal eu hymchwiliad. Caiff Gweinidogion hefyd bennu sut mae'r wybodaeth i'w chyflwyno.

4. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu cymorth rhesymol i Weinidogion Cymru ac i gydymffurfio â'r hysbysiad sy'n gofyn am wybodaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

5. Mae adran 41(5) o Ddeddf PGChC yn darparu, yn dilyn ymchwiliad, y caiff Gweinidogion Cymru wneud argymhellion i'r Awdurdod Contractio, cyhoeddi adroddiad o ganlyniadau'r ymchwiliad a gosod copi o unrhyw adroddiad a gyhoeddir gerbron y Senedd.

## Beth allai sbarduno ymchwiliad?

6. Nid yw Deddf PGChC yn pennu o dan adran 41 yr amgylchiadau a allai sbarduno ymchwiliad caffael, heblaw am yr angen iddo ymwneud â "sut mae Awdurdod Contractio yn cynnal caffael cyhoeddus" naill ai mewn perthynas ag "ymarfer caffael penodol" neu "ei weithgareddau caffael cyhoeddus yn fwy cyffredinol".

7. Mae'r ddarpariaeth yn adran 41 wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â meysydd o wendid. Er enghraifft, methu rhoi prosesau ar waith i weithredu Deddf PGChC dro ar ôl tro, neu gaffaeliad unigol pan fo cyfleoedd sylweddol i gyflawni nodau

llesiant drwy fodloni Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol neu leihau risgiau i lesiant, wedi cael eu colli.

8. Mae'n debygol y byddai ymchwiliad yn cael ei sbarduno gan dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o un neu fwy o sawl ffynhonnell.

9. Er enghraifft, gall is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol nodi materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach os gofynnir iddo gynorthwyo fel rhan o'r prosesau hysbysu, pan nad yw Awdurdodau Contractio yn cynnwys y gwaith cyhoeddus cymdeithasol neu'r cymalau gweithlu mewn contractau perthnasol (adrannau 30(2) a 36(2)). Gall yr is-grŵp hefyd nodi materion, a darparu cyngor i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, mewn perthynas â'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol a roddir i Awdurdodau Contractio o dan Ran 3 o'r Ddeddf PGChC (adran 10).

10. Gallai tystiolaeth arall a allai arwain at ymchwiliad godi o weithgareddau o dan y Ddeddf PGChC, megis Gweinidogion Cymru yn adolygu'r ffordd y cedwir at gymalau enghreifftiol ar gyfer contractau mawr, ac yn dadansoddi adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gan Awdurdodau Contractio.

11. Sefydlwyd Uned Adolygu Caffael Cymru ar 24 Chwefror 2025 i oruchwylio cydymffurfiaeth caffael cyhoeddus yn dilyn diwygiadau deddfwriaethol yng Nghymru.

12. Caiff rhywun godi pryder gyda Gweinidogion Cymru am ymarfer caffael cyhoeddus penodol, neu am weithgareddau caffael Awdurdod Contractio yn fwy cyffredinol drwy'r porth hysbysu.

13. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob pryder ar ei rinweddau ac yn penderfynu a ddylid agor ymchwiliad.

- Os bydd ymchwiliad yn cael ei agor, bydd yn mynd rhagddo yn unol â'r broses ymchwilio.
- Os gwneir penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad, rhoddir 10 diwrnod gwaith i'r ceisiwr i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Yn dilyn y cais hwnnw, bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r penderfyniad a naill ai'n cychwyn ymchwiliad neu'n darparu rhesymau pan na eir ar drywydd ymchwiliad, o fewn amser rhesymol.

14. Mae Deddf PGChC yn darparu y **caiff** Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o ganlyniadau'r ymchwiliad.

## Sut bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal

.

15. Os cynhelir ymchwiliad, caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall. Bydd yr hysbysiad yn rhoi manylion y dogfennau neu'r wybodaeth, gan gynnwys sut y dylid ei hanfon.

16. Rhaid i Awdurdod Contractio sy'n derbyn hysbysiad fel rhan o ymchwiliad caffael gydymffurfio ag ef cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, neu o fewn yr amserlen a bennir yn yr hysbysiad, pan fo amserlen o'r fath wedi'i darparu.

17. Gellir cyhoeddi canlyniadau'r ymchwiliad, a gellir gosod copi o unrhyw adroddiad wedi'i gyhoeddi gerbron y Senedd.

## Argymhellion yn dilyn ymchwiliadau caffael

18. Os yw Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymchwiliad caffael ac wedi nodi meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â Deddf PGChC, gallant gyhoeddi argymhellion i'r Awdurdod Contractio.

19. Bwriad argymhellion o'r fath yw cynorthwyo Awdurdodau Contractio i gydymffurfio'n llawnach â gofynion Deddf PGChC, a byddant yn nodi'r camau gweithredu y dylai'r Awdurdod Contractio neu'r Awdurdodau Contractio perthnasol eu cymryd i gyflawni hyn, yn ogystal ag amserlen ar gyfer y camau hyn.

20. Bydd yr argymhellion hefyd yn helpu i nodi pan fo angen canllawiau a hyfforddiant pellach i gefnogi'r gwaith o gyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru.